# CYLCHLYTHYR I RIENI/GOFALWYR

Hydref 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Croeso

Croeso i gylchlythyr yr hydref i rieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn y rhifyn hwn rydym yn rhannu awgrymiadau ar gynorthwyo eich plentyn yn ystod y blynyddoedd pontio, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a chyngor ar sut i baratoi ar gyfer Adolygiadau Cynllunio Datblygu Unigol (CDU). Mae Ben a'i dad, Peter, yn rhannu sut y gwnaeth ein cynghorydd gyrfa, Sophia, eu helpu i ddewis yr opsiwn gorau ar ôl blwyddyn 11. Rydym hefyd yn rhannu rhywfaint o newyddion digwyddiadau Beth Nesaf? Dewiswch eich Dyfodol. Gobeithiwn y bydd ein cylchlythyr yn ddefnyddiol wrth i chi helpu eich plentyn.

## Cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

### Gall ein cynghorwyr gyrfa:

- rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd.
- helpu eich plentyn i ddeall ei gryfderau a chyflawni ei botensial.
- rhannu gwybodaeth am opsiynau amrywiol, gan gynnwys gwaith a dysgu pellach.
- helpu'ch plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor sy'n gysylltiedig â'i opsiynau yn y dyfodol.
- cefnogi'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau.

Mae ein cynghorwyr gyrfa profiadol yn teilwra eu dull yn dibynnu ar oedran ac anghenion eich plentyn. Mae gennym gynghorydd gyrfa sy'n gysylltiedig â phob ysgol ond gallwn hefyd barhau i gynorthwyo eich plentyn pan fydd yn symud ymlaen o'r ysgol.

Yn ystod tymor yr hydref, bydd cynghorwyr gyrfa yn cwrdd â phobl ifanc sydd yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol ledled Cymru i'w helpu i gynllunio eu camau nesaf. Os hoffech sgwrsio â'r cynghorydd gyrfa sy'n gweithio gyda'ch plentyn, cyn yr adolygiad blynyddol, cysylltwch â ni.



## Sut gallwn ni helpu

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniad iawn am ei ddyfodol.

Mae ein timau mewn ysgolion yn cynnwys cynghorydd gyrfa, cynghorydd ymgysylltu busnes a chydlynydd cwricwlwm gyrfa a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith.

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

Nod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yw sicrhau bod rhieni'n bartneriaid yn y broses o adnabod, cynllunio a chefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan roi llais cryf a hawliau clir iddynt drwy gydol taith addysgol eu plentyn yng Nghymru.

## Crynodeb o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a adnabyddir fel Deddf ALNET, yn diwygio'r ffordd y mae plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynorthwyo yng Nghymru.

Mae'r ddeddf yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig a'r system Anawsterau Dysgu ac Anableddau bresennol gyda'r nod o gyrraedd anghenion plant o'u geni hyd ar 25 oed. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg bellach yn berthnasol i bob grŵp oedran.

## Hawliau Rhieni o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

Mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan ganolog o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Mae hawliau nodedig yn cynnwys:

- Yr hawl i ofyn am asesiad: Gall rhieni ofyn i'w plentyn gael ei asesu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ar unrhyw adeg.
- Yr hawl i gymryd rhan: Mae gan rieni'r hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ADY eu plentyn a'r cymorth a gynigir, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Datblygu Unigol.
- Yr hawl i gael gwybodaeth: Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth glir a hygyrch i rieni am y broses ADY a threfniadau cymorth eu plentyn.
- Yr hawl i apelio: Os yw rhieni'n anghytuno â phenderfyniadau a wneir ynghylch ADY neu CDU eu plentyn, mae ganddynt yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.
- Yr hawl i eiriolaeth a chymorth: Gall rhieni gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chyngor annibynnol i'w helpu i ddeall a defnyddio'r system. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael gwybod mwy.



## Nodweddion Allweddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

- Yn cyflwyno'r term "Anghenion Dysgu Ychwanegol" yn lle Anghenion Addysgol Arbennig ac Anghenion Dysgu ac Anableddau.
- System sengl, unedig ar gyfer cefnogi unigolion ag ADY yn ofynnol.
- Yn sefydlu Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob dysgwr y nodwyd bod ganddo ADY, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu dogfennu a'u diwallu.
- Yn ehangu'r sylw i gynnwys y blynyddoedd cynnar, ysgolion, a lleoliadau addysg bellach.
- Yn cryfhau rôl Tribiwnlys Addysg Cymru wrth ddatrys anghydfodau.

# Symud ymlaen o'r ysgol

## Paratoi ar gyfer adolygiadau Cynllun Datblygu Unigol

Gall meddwl am eich plentyn yn symud ymlaen o'r ysgol beri straen, felly mae cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio yn allweddol. Peidiwch â'i adael tan y flwyddyn olaf i holi cwestiynau – rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'r adolygiadau CDU yn y blynyddoedd sy'n arwain at eu blwyddyn olaf i gasglu gwybodaeth a rhoi cynlluniau ar waith.

### Dyma rai cwestiynau y gallech fod eisiau eu gofyn:

- Beth yw'r opsiynau i'm plentyn pan fydd yn gadael yr ysgol?
- Pa gamau sydd angen eu rhoi ar waith i'w helpu i baratoi ar gyfer gadael?
- Pwy fydd yn gweithio gyda fy mhlentyn i'w helpu i baratoi ar gyfer gadael?
- Pa gymorth sydd ar gael i helpu fy mhlentyn i benderfynu beth fydd orau iddo?
- Sut alla i gael gwybod mwy am yr opsiynau?
- Pa gymorth sydd ar gael ym mhob darpariaeth i ddiwallu anghenion fy mhlentyn?
- Beth os nad yw'r coleg neu'r ddarpariaeth leol yn gallu diwallu anghenion fy mhlentyn?
- Os bydd fy mhlentyn yn mynd i ddarpariaeth leol, sut bydd yn cyrraedd yno?

### Mae mwy o gwestiynau posibl ar ein gwefan

Adolygiad Cynllun Datblygu Unigol | Gyrfa Cymru

Efallai y bydd cynghorydd gyrfaoedd yn cael ei wahodd i adolygiad eich plentyn. Os yw'n mynychu, gall esbonio'r opsiynau sydd ar gael a'ch helpu chi i'w harchwilio ymhellach. Os nad yw'n bresennol, gallwch drefnu i siarad â chynghorydd ar amser cyfleus arall.

Gallwch gael gwybod pwy yw cynghorydd gyrfa eich plentyn drwy ofyn i'r ysgol, edrych ar wefan yr ysgol neu drwy gysylltu â ni'n uniongyrchol.

# Opsiynau yn 16 oed



Mae gwahanol opsiynau ar gael i'ch plentyn ar ôl blwyddyn 11:

## Aros yn yr ysgol

Mewn rhai ysgolion, gall myfyrwyr aros tan eu bod yn 19 oed. Gallent aros yn yr un ysgol neu symud i ysgol arall.

## Bod yn hyfforddai

Os yw eich plentyn eisiau cael swydd ond angen dysgu mwy am waith, gallai hyfforddeiaeth fod yn opsiwn.

## Mynd i'r coleg

Yn y coleg gallai eich plentyn ddysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar wersi newydd ac ennill cymhwyster.

## Bod yn brentis

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn swyddi sy'n eich galluogi i weithio tuag at gymhwyster a chael eich talu ar yr un pryd.

## Dechrau gweithio

Os yw'ch plentyn yn gwybod beth mae am ei wneud, gall wneud cais am swydd ar ôl iddo orffen yr ysgol.

## Gwirfoddoli


Gallai eich plentyn ddatblygu sgiliau a phrofiadau drwy wirfoddoli.

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yn

↗ Gwybod beth yw eich opsiynau.

## Fy Nyfodol ↗

yw adran bwrpasol ar wefan Gyrfa Cymru ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd. Gallwch archwilio ein gwybodaeth gyrfaoedd hawdd ei darllen, dysgu am wahanol swyddi, ystyried opsiynau a gwneud penderfyniadau gyda'ch plentyn.



# Stori Ben

## Stori bywyd go iawn

Gyda chymorth wedi'i deilwra, daeth Ben o hyd i'r cwrs coleg cywir ac mae'n teimlo'n fwy hyderus am ei ddyfodol.

Doedd Ben ddim yn siŵr beth i'w wneud ar ôl ei arholiadau TGAU. Ar y dechrau, roedd yn ystyried mynd i'r chweched dosbarth. Ond ar ôl siarad â'i gynghorydd gyrfa, Sofia, sylweddolodd fod ganddo fwy o ddiddordeb mewn cwrs lefel 3 mewn dylunio gemau cyfrifiadurol yn y coleg.

### Dod o hyd i'r llwybr cywir

Mae Ben yn mwynhau argraffu 3D a chwarae gemau fideo, yn enwedig gemau VR fel Blade & Sorcery. Ar ôl clywed am ei ddiddordebau, awgrymodd Sofia gwrs datblygu gemau yn y coleg.

Dywedodd Ben: "Gofynnodd Sofia i mi am fy niddordebau, pa bynciau roeddwn i'n eu hoffi a beth roeddwn i'n mwynhau ei wneud. Yna, rhoddodd argymhelliad i mi ar gyfer y cwrs rydw i'n ei wneud nawr. Esboniodd beth fyddai'n digwydd yno a sut i wneud cais. Dw i wrth fy modd gyda fy nghwrs.

### Cymorth i rieni

Roedd Ben, sy'n awtistig, o'r farn bod y cymorth yn arbennig o werthfawr, ac roedd ei dad, Peter, yn cytuno.

Esboniodd Peter: "Llwyddodd Sofia i'w holi ynghylch ei hobïau a'i ddiddordebau, er ei fod e'n eithaf mewnblyg ac nad yw'n dweud llawer. Gan ei bod hi'n adnabod y colegau lleol mor dda, roedd hi'n gwybod bod y cwrs hwn yn bodoli a gwnaeth ei awgrymu. Ar y pryd, doeddwn i ddim wedi ystyried unrhyw beth heblaw'r chweched dosbarth a Safon Uwch. Ond roedd hwn yn opsiwn hollol wahanol a oedd yn addas iddo mewn gwirionedd.

Mae hi wedi bod yn wych." O'r cyfarfod cyntaf hwnnw hyd at ei ddiwrnodau cyntaf yn y coleg, mae hi wedi cadw mewn cysylltiad. Dros yr haf, fe wnaeth hi gadw mewn cysylltiad a chyfrif i lawr i ddiwrnod y canlyniadau gyda ni. Ar adegau roeddwn i'n teimlo ei bod wedi'i chyffroi gymaint â fi. Mae hi wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl.



Ben

"I bobl ifanc awtistig, gall newid fod yn anodd, yn enwedig symud o'r ysgol i'r coleg. Helpodd Sofia i baratoi'r llwybr hwnnw. Gweithiodd yn dda gyda'r ysgol, gyda ni fel rhieni, a chyda'r coleg. Gwnaeth hi wahaniaeth mawr."

### Edrych tua'r dyfodol


Mae Ben wedi dechrau ei gwrs datblygu gemau ac mae'n ei fwynhau. Mae'n gobeithio symud ymlaen i lefelau uwch yn y dyfodol ac yn y pen draw gweithio yn y diwydiant gemau a modelu 3D.

Dywedodd: "Mae wedi rhoi rhywbeth i mi rydw i wir yn ei fwynhau ac eisiau ei wneud fel gyrfa. Mae wedi fy rhoi ar lwybr clir."

## Cyngor i rieni eraill

Dywedodd Peter: **"Fel rhiant, alla i ddim canmol y cymorth ddigon. Mae Gyrfa Cymru wedi bod yn wych i Ben, ac mae wedi rhoi hyder i ni ei fod ar y trywydd iawn."**

# Awgrymiadau gorau i rieni a gofalwyr



**Mae gan rieni a gofalwyr ddylanwad mawr ar ddewisiadau eu plentyn ar gyfer y dyfodol.**

Dyma rai o'r ffyrdd y gallwch chi helpu eich plentyn i gynllunio ar gyfer y dyfodol:

- Trafod ei syniadau am yrfa yn y dyfodol a'i annog i feddwl am yr holl opsiynau sydd ar gael.
- Ei annog i ddatblygu ei sgiliau drwy addysg, hobïau, diddordebau, profiad gwaith a swyddi rhan-amser.
- Ei annog i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael drwy'r ysgol, y coleg a Gyrfa Cymru i'r eithaf.
- Defnyddio Swyddi Dyfodol Cymru i ddysgu am y farchnad swyddi, y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt a thueddiadau cyflogaeth.
- Ei annog i fynd i adran Fy Nyfodol ar y wefan i'w helpu i ddarganfod mwy drostyn nhw eu hunain.
- Ei annog i chwilio am fideos sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd ac opsiynau ar sianel Fy Nyfodol ar YouTube (gwefan allanol).
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu cynllunio pontio a'u mynychu.
- Ei gefnogi wrth ymweld â cholegau neu ddarpariaeth arall y gallent fynd ymlaen iddi ar ôl gadael yr ysgol. Bydd ei annog i weld gwahanol leoedd yn ei helpu i benderfynu.
- Siarad â'r cynghorydd gyrfa os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth.
- Mynychu digwyddiadau Gyrfa Cymru neu ddigwyddiadau pontio a gynhelir yn yr ysgol.

# Beth Nesaf?

## Digwyddiadau Dewiswch Eich Dyfodol

Mae ein digwyddiadau Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol archwilio beth yr hoffent ei wneud ar ôl gadael yr ysgol.

Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, cwrdd ag amrywiaeth o gyflogwyr i ddysgu am wahanol yrfaoedd a darganfod cyrsiau galwedigaethol a gynigir gan golegau a darparwyr hyfforddiant. Mae ein cynghorwyr gyrfa hefyd wrth law i roi cyngor ac arweiniad.



Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad Beth Nesaf? cyntaf ar gyfer blwyddyn academaidd 2025–2026 yng ngogledd Cymru ac ym Mhowys ym mis Hydref.

Trefnodd Martin Webber, cynghorydd ymgysylltu busnes yn Gyrfa Cymru, y digwyddiad yng ngogledd Cymru a dywedodd:

"Mynychodd dros 200 o ddisgyblion o 10 ysgol wahanol ein digwyddiad Beth Nesaf? yn Ysgol y Gogarth, Llandudno. Rhoddodd gyfle i ddisgyblion sgwrsio â chynrychiolwyr o 22 o gyflogwyr, sefydliadau a darparwyr hyfforddiant gwahanol. Yn ogystal, cymerodd llawer o ddisgyblion ran mewn gweithgareddau, gan gynnwys adeiladu tyrbinau gwynt gyda Bute Energy."

Bydd gwahoddiadau'n cael eu rhannu'n fuan gydag ysgolion ar gyfer y gyfres nesaf o ddigwyddiadau sydd ar y gweill ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, De-ddwyrain Cymru a Chanol De Cymru ddechrau 2026.

Mae'r holl ddigwyddiadau sydd ar ddod i'w gweld yma:

gyrfacymru.llyw.cymru/digwyddiadau




**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**

## Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cefnogi unrhyw un 16 oed a hŷn i ddod o hyd i swydd neu gael mynediad at gyfleoedd i uwchsgilio trwy gyrsiau a hyfforddiant.

Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i amgylchiadau personol pob unigolyn - boed yn fyfyriwr sydd wedi gadael yr ysgol, yn wynebu cael ei ddiswyddo, wedi cael ei ddiswyddo'n ddiweddar, neu'n ystyried newid gyrfa.

Rydym hefyd yn cefnogi unrhyw un sydd eisiau uwchsgilio, magu hyder, creu CV, datblygu sgiliau cyfweliad neu oresgyn rhwystrau i waith.

Gallwch gael cymorth am ddim gan Cymru'n Gweithio yn un o ganolfannau Gyrfa Cymru, ein lleoliadau allgymorth, dros y ffôn neu'n ddigidol. Dewch o hyd i ragor o wybodaeth neu gallwch drefnu apwyntiad yma.




cymrungweithio.llyw.cymru



Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau darllen y cylchlythyr hwn. Os hoffech rannu eich adborth ar ein gwaith gyda rhieni, cwblhewch ein holiadur rhieni

## Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio 0800 028 4844
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy www.gyrfacymru.llyw.cymru
- Galwch heibio i un o'n canolfannau gyrfaoedd
- Anfonwch neges ebost i post@gyrfacymru.llyw.cymru

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government